# GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN (B4309, BANCYCAPEL) (GWAHARDD GODDIWEDDYD) 2026

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, wrth arfer ei bwerau o dan Adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 4 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd) (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "y Ddeddf"), Deddf Rheoli Traffig 2004 a phob pŵer galluogi arall, ac yn dilyn ymgynghoriad â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III o Atodlen 9 i'r Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y XXX diwrnod o XXX, Dwy Fil a Dau Ddeg Chwech a cyfeirir ato fel "Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (B4309, Bancycapel) (Gwahardd Goddiweddyd) 2026".

2. **Dehongliad**

   Yn y Gorchymyn hwn:

   Mae i **"gerbyd modur"** yr ystyr a roddir gan Adran 136 o'r Ddeddf.

   Mae **"goddiweddyd"** yn golygu pasio, neu geisio pasio, cerbyd sy'n symud ac sy'n teithio i'r un cyfeiriad.

   Mae **"ffordd benodedig"** yn golygu'r rhan o'r ffordd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir ar y cynllun sydd wedi'i atodi i'r Gorchymyn hwn sy'n dynodi Cyfeirnod Teilsen Map W29.

3. **Gwahardd Goddiweddyd**

   Ni chaiff unrhyw berson achosi na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur sy'n teithio ar y ffordd benodedig oddiweddyd cerbyd modur arall sy'n symud.

# <u>ATODLEN</u>

## GWAHARDD GODDIWEDDYD

| <u>1</u><br><br>**Ardal** | <u>2</u><br><br>**Enw/Disgrifiad o'r Ffordd** | <u>3</u><br><br>**Cyfeirnod Map** |
|---|---|---|
| Bancycapel | Ffordd Dosbarth II,<br>y B4309 ym Mancycapel | W29 |

**GWNAED** o dan Sêl Gyffredin Cyngor Sir Caerfyrddin ar y XXX dydd o XXX, Dwy Fil a Dau Ddeg Chwech.

Rhoddwyd Sêl Gyffredin

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**

ar y ddogfen hon

ym mhresenoldeb:

.......................................................................................................................

**Steven P Murphy**

**Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil**